



**Cylchlythyr gan y Pennaeth
Mehefin 2014
Newsletter from the Head
June 2014**

■ Cadi Edwards of Conwy has won at the Urdd Eisteddfod for music composition (including lyrics), coming 1st and 3rd. She has been composing since the age of 10, she is now 14 and a student of Ysgol Dyffryn Conwy. This is the third time she has won the main national title.



■ Erin Gwyn Rossington from Dyffryn Conwy who won the girl solo under 19.



■ Ysgol Dyffryn Conwy, who won the dramatic presentation year 7, 8 and 9.



Longyfarchiadau mawr i holl ddisgyblion Ysgol Dyffryn Conwy a fu'n cystadlu mor wych yn y Bala. Roedd pawb wedi perfformio mor dda, gyda nifer yn andros o anlwcus o beidio cael llwyfan. Uchod gwelir y rhai a ddaeth i'r brig a disgleirio ar y llwyfan. Hoffwn hefyd ddiolch i'r athrawon am roi'r holl ymdrech a'r amser er mwyn sicrhau pob cyfle i'r disgyblion. Yn enwedig Miss Angharad Ellis, Mr Chris Roberts a Miss Llio Japheth. Longyfarchiadau mawr hefyd i ysgolion cynradd y dalgylch ar eu llwyddiant

ADRODDIAD ESTYN

Cafodd yr ysgol ei harolygu ym mis Mawrth ac mae'r adroddiad bellach wedi ei gyhoeddi:

Mae Estyn yn asesu holl waith yr ysgol ac yn cloriannu barn yn seiliedig ar dri phrif ddangosydd ansawdd sef **Safonau'r ysgol** (*dros gyfnod o amser ac mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran % prydau ysgol am ddim*), **Darpariaeth yr ysgol** ac **Arweinyddiaeth yr ysgol**. Yna maent yn dod i farn ynglŷn â pherfformiad cyfredol yr ysgol a rhagolygon gwella'r ysgol.

Rydym fel ysgol yn hynod falch o rannu gyda chi fod Estyn wedi dyfarnu holl waith yr ysgol yn dda gyda barn o ragorol am yr amgylchedd ddysgu ac ethos yr ysgol. Mae Estyn felly wedi cydnabod y cynnydd sylweddol sydd wedi bod ers yr arolwg diwethaf wrth gytuno gyda'r ysgol ynglŷn â'r meysydd fydd angen blaenoriaethu i gyrraedd rhagoriaeth ymhob maes. **Bydd Estyn yn ein gwahodd i baratoi a chyhoeddi astudiaeth achos yn disgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.**

Mae'n tystio i gryfder safonau yn yr ysgol fod Estyn wedi cytuno a barn y Llywodraethwyr a'r Uwch dim arwain ynglŷn â'r agweddau a aseswyd yn ogystal â'r argymhellion.

Fel rhieni gofynnaf yn garedig i chi ddarllen yr adroddiad a'r eirfa ganmoliaethus sydd ynddi. Rydym wedi bod ar daith gwella ers sawl blwyddyn bellach ac rydym yn hapus dros ben fod Estyn wedi cydnabod y gwelliannau hyn.

Hoffwn felly ddiolch a llongyfarch holl gymuned yr ysgol. Y tîm o staff sydd wedi dangos ymroddiad ac ymrwymiad i barhau i anelu'n uwch, i'r holl ddisgyblion, rhieni a'r holl ysgolion cynradd. Mae gennych hefyd Gorff Llywodraethol y dylech hefyd fod yn falch iawn ohono. Rydw i'n siŵr ein bod yn cytuno fod hwn yn adroddiad y gall yr holl gymuned ymfalchïo ynddo fydd hefyd yn gosod sylfaen gref i barhau a'r daith gwella er sicrhau dim llai na'r gorau i ddisgyblion dalgylch Dyffryn Conwy.

Mae cymaint o sylwadau gwych yn yr adroddiad, ond fel rhieni a darpar rieni credaf fod rhai yn sefyll allan

'mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau uchel'

'mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos gynhwysol anghyffredin o uchel'

'mae'r disgyblion i gyd yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda iawn'

'mae'r ysgol wedi ymateb yn dda iawn i flaenoriaeth genedlaethol o greu Cymru hyfedr ddwyieithog tros y tair blynedd diwethaf'

'mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel'

'mae gan yr ysgol ethos unigryw Cymreig'

'mae awyrgylch cynhwysol anghyffredin o uchel yn bodoli yn yr ysgol gyda disgyblion yn derbyn cefnogaeth gref iawn yn y ddosbarth, neu drwy uned benodol, i sicrhau eu bod yn cyflawni potensial'

Ceir copi papur o'r adroddiad ar alw o'r ysgol ac mae copi ar safle we ESTYN ar y cyfeiriad hwn:

<http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/darparwr/>

<http://www.estyn.gov.uk/english/provider/>

Valley school gets thumbs up

By MARI JONES

SCHOOL inspectors have given Ysgol Dyffryn Conwy in Llanrwst a glowing report.

Estyn judged it a "good school with good improvement prospects and an excellent judgement for the learning environment and school ethos".

The school will now be invited by Estyn to write a case study to be shared with other schools describing the "excellent" practice seen.

Ysgol Dyffryn Conwy's headteacher Paul Matthews-Jones said: "This is a wonderful report and truly reflects the school.

"We all know our pupils have high attainment and standards are high, but this report is one the whole community can be proud of due to its extraordinary praise of pupils, and the support given to them.


"Pupils reach their potential here whatever their need or background. I congratulate all my pupils and staff and thank all parents for their support.

"We also agree with the recommendations given which set the foundation for our goal of excellence in all aspects of school life here at Ysgol Dyffryn Conwy."

Estyn noted that "all pupils feel safe at school and it promotes an extraordinarily inclusive ethos in which pupils receive very strong support to ensure they achieve their full potential".

Estyn praised the high standards and progress of pupils and the school's successful promotion of pupils' bilingualism.

A SCHOOL TO BE PROUD OF



SUCCESSFUL SCHOOL: Ysgol Dyffryn Conwy in Llanrwst has had glowing report from school inspectors.

The report also highlights that "teaching is consistently high and teachers and pastoral leaders provide high quality care and support highlighting that the quality of provision and support for pupils with special educational needs is one of the schools strengths".

Estyn judged the school's prospects

for improvement as good, stating that "leadership is good and that purposeful planning by managers at all levels meets local and national priorities".

Self evaluation and planning is rigorous and "governors support managers to maintain and raise standards skilfully".

Mr Matthews-Jones added: "The school's priorities for the coming year will be to continue and maintain the high standards already achieved with particular attention to the standards of boys in English and to continue the six year trend of improvement in attendance."

Buddsoddiad Technoleg Gwybodaeth

Mae'r gwaith o rwydweithio'r ysgol wedi cwblhau ond ar hyn o bryd mae problemau technoleg ac ar adegau diffyg cyd weithio wedi golygu na ddaeth y cysylltiad di wifr i chi'r tymor yma. Rwy'n ymddiheuro'n fawr am hyn ac yn rhwystredig iawn. Er hyn mae addewidion pendant wedi eu gwneud y bydd y cysylltiad di wifr yn weithredol yn fuan yn y flwyddyn addysgol newydd. Bydd hyn yn golygu y gall pob plentyn gysylltu â'r we drwy declynnau symudol. Credaf fod hwn yn ddatblygiad allweddol, ac yn agor drws i bob math o gyfleoedd addysgol o ystyried yr holl wefannau addysgol sydd ar gael. Bydd angen i ni wedyn lunio polisi a strategaeth defnydd cyfrifol ac os ydi eich plentyn yn defnyddio tabled mewn gwersi yna dulliau diogel o ddefnydd ac wrth gwrs lleoliadau i'w cadw'n ddiogel.

Presenoldeb

Mae parhau i godi % presenoldeb yn un o argymhellion Estyn. Er hyn fe wnaeth Estyn gydnabod y cynnydd 6 mlynedd. Rwyf yn falch o rannu gyda chwi y bydd presenoldeb eleni hefyd yn sicr o fod yn uwch na llynedd, ac yn barod yn ein gosod mewn safle iach mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran canran prydau cinio ysgol am ddim. Ar hyn o bryd mae'r ganran yn 94.35%, 1% yn uwch o'i gymharu a 2013. Yn nhermau presenoldeb mae hyn yn gynnydd sylweddol. Hoffwn felly ddiolch i chi am eich cefnogaeth i'r ymgyrch nid yn unig yn ddyddiol ond hefyd wrth leihau gwyliau yn ystod tymor ysgol. Anelwn am 95% flwyddyn nesaf!

Chwaraeon

Llongyfarchiadau mawr i Fflur Williams 8 Machno a Jordan Jones 8 Tudur - Y ddwy wedi eu dewis i garfan Pêl droed ' North Wales Coast Girls Football Performance Centre'

Llongyfarchiadau i Emily Watson Disgybl blwyddyn 13 Ysgol Dyffryn Conwy ac un o Lysgenhadon Ifanc Platinwm Conwy wedi ei henwi yn Llysgennad y mis gan Chwaraeon Cymru

Am y drydedd flwyddyn yn olynol Ysgol Dyffryn Conwy sydd a'r Tîm Rygbi Gorau yn Eryri. Wedi gem galed a hynod gystadleuol bu'r hogiau guro Coleg Meirion Dwyfor yn y ffeinal yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm dan 13, cyrraedd y ffeinal ond colli mewn gem agos yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae wedi bod yn dymor anhygoel i'r timau rygbi ac rydym yn eu llongyfarch yn fawr.

Eleni sefydlwyd Tîm Marchogaeth Ysgol Dyffryn Conwy gyda chefnogaeth rhieni. Mae'r tîm yn barod wedi rhagori ac wedi dod yn 8fed mewn cystadleuaeth Brydeinig, ymysg nhw nifer o golegau ac ysgolion preifat. Llongyfarchiadau mawr i'r tîm sef Jac Cernyw, Harriet Williams, Efa Davies a Mary Jane Braunton. Gyda diolch arbennig i Ceri Hughes (rhiant) am bob cefnogaeth.

Mae'r clwb athletau yn mynd o nerth i nerth. Mae Abi Backshall, Tom Casey a Lewis Mullender wedi llwyddo i gyrraedd y bencampwriaeth Genedlaethol ym Mannau Brycheiniog. Fel ysgol yng nghystadleuaeth yr NASUWT fe ddaeth bechgyn dan 16 yn ail, genethod dan 16 hefyd yn ail, bechgyn dan 14 yn bedwerydd a'r genethod yn ail. Mae'r llwyddiant hefyd yn parhau yn Sirol gyda'r bechgyn iau yn drydydd, genethod iau yn bedwerydd, yna'r bechgyn a genethod dan 14eg yn ail gyda'r bechgyn hyn yn gyntaf.

Hoffwn hefyd Longyfarch Rachel Johncock o Ddolwyddelan (disgybl yma hyd 2012) sydd wedi ei dewis i redeg dros Gymru yng ngemau'r Gymanwlad yn Glasgow.

Bws Arriva Trefriw

Mae newidiadau i'r amserlen wedi creu problemau mawr i ddisgyblion Trefriw. Rydym yn anhapus iawn a'r sefyllfa ac yn parhau i drafod gyda'r Awdurdod ac Arriva. Gofynnaf i unrhyw riant sydd â sylw gysylltu â mi er mwyn parhau a'r ymgyrch.

Swydd Newydd

Mae Eiliw Baines Roberts wedi ymuno a staff yr ysgol fel swyddog ieuencid mewn partneriaeth a'r Urdd. Mae Eiliw yn barod wedi sefydlu clybiau ac wedi ymweld â'r ysgolion Cynradd a bydd sicr mwy o gyfleoedd a chlybiau i ddisgyblion tymor nesaf.

Cyffro'r Wythnos Weithgareddau

Mae wythnos weithgareddau cyffrous iawn wedi ei threfnu ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7-9. Plis a fyddech mor garedig a dychwelyd y ffurflen a'r cyfraniad o £20 mor fuan â phosibl. Yn ogystal fis nesaf mae Taith i wlad Belg i goffau'r Rhyfel Byd cyntaf yn ogystal â thaith sgïo a thaith i Efrog Newydd yn ystod 2014/15.

Ffarwelio

Rydym yn ffarwelio a Miss Gemma Bourne ,Miss Mari Scanlon a Mrs Tracy Howes ar ddiwedd y tymor ac yn eu llongyfarch ar eu penodiadau a dyrchafiad. Gyda chalon drom gallaf hefyd gadarnhau y byddaf innau yn gadael yn yr haf i gychwyn fy swydd newydd fel Pennaeth Ysgol Syr Hugh Owen Caernarfon. Mae hi wedi bod yn bleser ac anrhydedd bod yn bennaeth ar yr ysgol arbennig yma. Rwyf wedi mwynhau pob eiliad. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'n staff a phob disgybl a phob rhiant sydd wedi cyd weithio gyda mi. Mae'r disgyblion yn haeddu'r ysgol wych sydd yma a bydd yr ysgol yn mynd o nerth i nerth yn y blynyddoedd nesaf. Bydd pennaeth mewn gofal mewnol yn cael ei apwyntio erbyn mis Medi, ac yn fuan wedyn bydd y Corff Llywodraethol yn cychwyn y broses o benodi Pennaeth parhaol.

